24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
post@archwilio.cymru
www.archwilio.cymru

Mr Duncan Hall
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael
Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Rheidol,
Rhodfa Padarn,
Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth,
SY23 3UE.

**Cyfeirnod:** 3249A2022
**Dyddiad cyhoeddi:** 30 Tachwedd 2022

Annwyl Duncan,

## Tyfu Canolbarth Cymru – Ffurflen Flynyddol 2021-22

Yn unol â gofynion Adran 12 ac Adran 14 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yr wyf yn rhoi fy adroddiad ar Enillion Blynyddol Tyfu Canolbarth Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

Rwyf wedi ymgymryd â'n gwaith yn unol â'r gweithdrefnau penodedig a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. I grynhoi'r gweithdrefnau hyn mae'n gofyn inni ystyried a yw'r datganiad blynyddol o gyfrifon:

- wedi ei baratoi ar sail resymol (er enghraifft, mae'r ffigyrau'n cytuno i'r cofnodion sylfaenol y maent wedi'u paratoi arnynt ac maent yn gyson â thrafodion a gofnodwyd yng nghyfrifon statudol yr awdurdodau lleol cyfansoddol ar gyfer yr un cyfnod adrodd); ac yn
- castio'n gywir.

## Adroddiad archwilio ar y datganiad blynyddol yn ymwneud â Thyfu Canolbarth Cymru am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022:

Yn amodol ar ragbrawf o ddychweliad blynyddol 2021-22 byddwn yn gallu cadarnhau'r canlynol:

'Ar sail ein hadolygiad ac yn ein barn ni, mae'r wybodaeth a geir yn y Ffurflen Flynyddol yn unol ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i'n sylw gan roi achos pryder nad yw deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoleiddio wedi'u bodloni.'

## Materion eraill

Roedd angen i mi wneud newid i'r Arweinydd Ymgysylltu i'r  hyn a hysbysebwyd yn y Cynllun Archwilio. Derwyn Owen, Cyfarwyddwr o fewn Archwilio Cymru, oedd yr Arweinydd Ymgysylltu yn archwilio’r cyfrifon.

Yn gywir



Derwyn Owen

dros ac ar ran Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru